Awst 2013

yn rhoi cartref i fyd natur

giving nature a home

# Bwletin Cysylltiadau Conwy

## Gwella RSPB Conwy ar gyfer pobl a natur

Waw! Mae hi'n anodd credu bod Cysylltiadau Conwy bron wedi'i gwblhau. Rydan ni wedi cael adborth ardderchog gan ymwelwyr sydd eisoes yn hoffi'r hyn yr ydym wedi'i wneud, ac mae hynny'n wobr ynddo'i hun.

Tra'n adeiladu'r Maes, Y TŷGwylio a pheintio murlun yng nghuddfan Tal-y-fan, mae hi wedi bod yn wych sgwrsio gyda gymaint o bobl sydd â diddordeb yn yr hyn rydan ni yn ei wneud. Rydan ni wedi ymdrechu i fod mor wyrdd ag y bo modd gyda'r project yma, rhywbeth sydd i'w weld yn glir o'n hadeilad bêls-gwellt. Cawsom help mawr gan wirfoddolwyr, a gweithiom gyda chontractwyr grêt, oedd yn rhannu ein gweledigaeth.

Ychydig foreau yn ôl, wrth i'r haul gynhesu'r warchodfa, bues i'n sefyll ar y stepiau yn Y Maes, gan edrych ar sut mae'r gweddnewidiad wedi altro'r lle dros yr wyth mis diwethaf. Mae RSPB Conwy wedi'i wella, tra mae'n parhau i reoli'r cynefinoedd fel cartref ar gyfer pob math o natur, a rhoi cyfle i bawb i brofi bywyd gwyllt. Rydan ni wedi ei adeiladu o, felly hoffem ni i chi ddod draw i'w fwynhau!

*Julian Hughes, Rheolwr y Warchodfa*



Julian yn gweithio gyda'r bêls gwellt ▸

## Diweddariadau

### Maes Parcio

Y llynedd, gwnaethom newidiadau sylweddol i hanner y maes parcio. Diolch i gefnogaeth a hyblygrwydd prif arianwyr, y project Cymunedau a Natur, rydym wedi llwyddo i ddod o hyd i ddigon o gyllid i wella'r hanner arall hefyd. Cwblhawyd y gwaith mewn pryd ar gyfer gwyliau'r haf. Rydym wedi dweud ta-ta wrth y tyllau yn y lôn am byth - ac mae ein gwirfoddolwyr gweithgar oedd yn llenwi'r tyllau'n rheolaidd, yn arbennig o falch!

### Tegi

Nid gormodiaith yw dweud fod pawb sy'n ymwneud â'r project Cysylltiadau Conwy yn caru Tegi! Wedi'r cyfan, fo yw'r anghenfil gwlypdir mwyaf caredig yn y byd! Mae Tegi bellach ar agor i'r cyhoedd. Yn garedig iawn, peintiodd yr arlunydd Richard Hackett (a oedd yn gyfrifol am greu murlun Tal-y-fan) lygaid Tegi, sydd wedi rhoi sblash o liw llachar effeithiol, tra bo'i gôt yn troi'n wyrdd.

### Golygfan y Fardre

Mae sgrin gwylio newydd ym mhen deheuol y warchodfa wedi cael ei adeiladu, yn edrych dros yr ynysoedd y lagŵn dwfn, ac adeiladom lwybr troed newydd o'r Llwybr Ganol. Mae pob un o'r cuddfannau yng Nghonwy wedi cael eu henwi ar ôl y bryniau a'r mynyddoedd sydd i'w weld o'r warchodfa. Mae'r olygfan yma wedi cael ei enwi ar ôl y bryn yn Neganwy. Gwelir golygfeydd newydd y warchodfa a bywyd gwyllt nad ydym erioed wedi'u gweld o'r blaen.



TESCO

Cymunedau a Natur
Communities and Nature

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Mae Cysylltiadau Conwy yn fenter a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhan o brosiect strategol Cymunedau a Natur Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Diweddariadau

## Cerflun

Hwn fydd y darn olaf un o'r project a fydd yn cael ei osod yn fuan iawn. Rydym am ei gadw fel cyfrinach am y tro. Ar fore heulog ar ddechrau mis Mehefin, aeth rhai ohonom i'w weld yn cael ei greu. Cawsom ein syfrdanu'n llwyr. Gyda'r cerflun hwn, byddwch yn sicr yn gwybod eich bod wedi cyrraedd lle sydd yn rhoi cartref i natur.

## Tŷ Gwylio

Ar ôl tri mis o waith llafurus, 450 bêl-gwellt a nifer enfawr o gacennau a phaneidiau i gadw lefelau egni'r gweithwyr yn uchel, mae gennym ni adeilad eco y gallem fod yn falch ohono. Mae ein hadeilad bêls-gwellt yn ofod gwych, ac yn cynnig golygfeydd hudolus dros y lagwn. Diolch ENFAWR i bawb a wnaeth hyn yn bosibl.

## Y Maes

Ers i'r Maes gael ei greu, rydan ni wedi gweld cymaint o blant yn defnyddio'u dychymyg yn y gofod newydd. Rydym yn falch o ddweud ei fod yn cael yr effaith a ddymunir. Mae'n wych i weld rhieni yn ymlacio ar y meinciau tra bod plant yn chwarae'n rhydd ar y fframiau dringo, wrth sylwi y broga a phryfed achlysurol. Cafodd graffiti'r twnel ei greu gan yr arlunydd Dime One, aka Andy Birch o Hen Golwyn, gyda chymorth grŵp y Fforwyr Bywyd Gwyllt. Rydym hefyd wedi comisiynu cerflunydd lleol Mike Owens i greu mainc bren, a ysbrydolwyd gan adar y warchodfa. Mae manion i'w gorffen yr hydref yma, gan gynnwys tîpî helygen, gweirglodd blodau gwylltion a thipyn o waith plannu. Erbyn gwanwyn 2014, bydd yn edrych yn hyfryd a thoreithiog.



◂ Laura yn sgwrsio gyda Huw Jenkins, BBC Radio Wales



Rhai o wirfoddolwyr a helpodd i adeiladu TŷGwylio ▸



Y TŷGwylio ▴

# Cyfarfod Laura

**Ymunodd Laura Kudelska â'r RSPB ym Mai 2012, fel Swyddog Prosiect Cysylltiadau Conwy. Mae rheoli prosiect o'r math hwn, gan gynnwys sicrhau bod elfennau'n cael eu cwblhau, yn ogystal â chadw cyllidwyr, contractwyr a phawb sy'n ymwneud â'r project yn hapus, yn cymryd cymeriad arbennig.**

### Cyn ymuno â'r RSPB, beth wnes di?

Roeddwn yn gweithio i gwmni preswyl addysgol am chwe blynedd, fel hyfforddwr addysg awyr agored ac fel rheolwr i un o'u canolfannau, ac ar ôl i mi adael yno, mi wnes i sefydlu ffatri tyrbin gwynt.

### Pan ddechreuaist di weithio i RSPB Conwy, a oeddet ti'n gwybod tipyn am yr elusen?

Oeddwn - fe wnes radd mewn Bioleg Amgylcheddol felly roeddwn yn ymwybodol iawn o'r RSPB. Roeddwn i'n wirioneddol awyddus i weithio i'r RSPB – roedd y swydd hon a'r sefydliad yn apelio.

### Rwyt yn amgylchedd-wraig eithaf brwd, a fyddet yn cytuno?

Ydw, yn fawr iawn. Cefais fy magu yng nghefn gwlad a threuliais y rhan fwyaf o'm mhlentyndod yn rhedeg o gwmpas coedwigoedd ac afonydd. Cymerais ran mewn llawer o gystadlaethau pan oeddwn yn blentyn. Pan oeddwn yn 12 mlwydd oed ac yn y Girl Guides, daethom yn ail mewn cystadleuaeth a mi ges i gyfarfod David Bellamy! Roeddwn yn falch iawn o hynny!

### Beth fyddet ti'n ei ddweud oedd uchafbwynt y ddeng mis diwethaf?

Rydw i wedi gweithio'n galed tuag at y Tŷ Gwylio. Mae'n deimlad braf iawn ei weld wedi'i gwblhau erbyn hyn. Fodd bynnag, Tegi, a adeiladwyd gan Gwyn a wnaeth y draenio, yw fy hoff elfen o'r prosiect. Mae ganddo gymaint o gymeriad ac mae'r plant yn ei garu o.

### Dwi'n cofio ti'n cyffroi'n fawr am y system ddraenio...!

Do! Y draenio oedd un o'r elfennau cyntaf y prosiect felly roedd yn teimlo fel tri mis o waith papur a siarad â phobl oedd yn dechrau cymryd siâp o'r diwedd. Roedd yn foment fawr!

### Beth fu dy bwynt isaf?

Cawsom ychydig o fomentau gyda'r awdurdod cynllunio gyda dwy elfen o'r project. Roeddent braidd yn straenus. Fodd bynnag, cafodd popeth ei wneud ar amser, felly roedd popeth yn iawn yn y diwedd.

### Pwrpas y cysyniad oedd annog mwy o deuluoedd a'r gymuned i ailgysylltu â byd natur. A wnaeth o weithio?

Yn bendant. Does dim ond rhaid gwylio teuluoedd yn defnyddio'r Maes sydd wedi ei greu – mewn gwirionedd mae o wedi newid deinameg yr ardal hon o'r warchodfa, sydd yn wirioneddol wych i'w weld.

*Dymunwn ddiolch i Laura am ei holl waith caled. Pob lwc i ti!*

# Albwm Lluniau Cysylltiadau Conwy



Alastair (staff RSPB) yn rendro'r TŷGwylio gyda chlai



Dime One (aka Andy Birch) yn addurno'r twnel â graffiti



Staff Ystâd y Goron yn gwirfoddoli eu hamser ar y TŷGwylio - diolch!



Diwrnod Marchnad Fferm ar Y Maes



Llenwi to'r TŷGwylio gyda gwellt



Coeden glai tu mewn i'r TŷGwylio



Ymwelwr yn mwynhau Golygfan y Fardre



Amser paned yn y TŷGwylio



Murlun Tal-y-fan gan Richard Hackett

# Gair i'w gloi gan Katie-jo

*Hoffwn longyfarch yr holl arwyr di-glod hynny, sydd wedi bod ynglwm â Chysylltiadau Conwy. Heb dîm gwych, ni fyddai hyn wedi digwydd.*

*Mae'r projectau hyn yn dechrau blynyddoedd cyn i chi weld unrhyw ddigar bach! Diolch yn arbennig i'r Grwp Cefnogi RSPB Conwy. Fe wnaethon nhw chwalu eu targed codi arian trwy wneud pob math o bethau o bobi cacennau a gwneud jamiau, i dyfu planhigion a gwerthu llyfrau ail law.*

*Diolch yn fawr i bob un o'n cyllidwyr - fe wnaeth cymaint ohonynt rannu ein gweledigaethau ac ymuno â'r tîm i wneud y cyfan yn bosib. Dylai holl staff casglu arian RSPB Cymru, staff gwarchodfa Conwy a'r gwirfoddolwyr deimlo'n falch iawn o'u hunain am neilltuo cannoedd o oriau o'u hamser i'r project.*

*Yn olaf, hoffwn longyfarch ein dau gyflwynydd ifanc, Efa a Peter – byddan nhw yn cofio hyn am byth. Yn sicr mae ganddyn nhw'r ddawn i wneud gyrfa o hyn! Bydd eu cyfraniad yn para yn y cylch cyfryngau-cymdeithasol am amser hir i ddod.*

*Rwy'n gobeithio y byddwch i gyd yn mwynhau golwg newydd a chyfleusterau newydd y warchodfa, a diolch i chi i gyd am ymweld â chartref newydd natur yn RSPB Conwy.*

*Katie-jo Luxton, Cyfarwyddwr RSPB Cymru*

Ffotograffiaeth gan Laura Kudelska.

# "Creu Cysylltiadau Conwy" - y mŵfi

Ers Hydref diwethaf, mae criw Tape Community Music and Film wedi rhoi oriau o'u hamser i greu ffilm fer yn dogfennu'r datblygiadau. Cewch gyfle yn y Diwrnod Darganfod (manylion isod) i weld premiere y ffilm! Diolch, griw Tape, ichi am eich holl waith caled a llongyfarchiadau mawr i Efa (9) a Peter (8) am fod yn gyflwynwyr gwych. Pwy a ŵyr, efallai mai chi fydd cyflwynwyr Springwatch y dyfodol!



"Mae'r grŵp wedi gweithio'n galed iawn ar greu'r ffilmiau ac wedi'u cyffroi'n arw o fod yn rhan o'r project yma. Mae eu creadigrwydd a'u brwdfrydedd wedi sgleinio drwy'r holl broses greu, a'r canlyniad yw gwaith y gallan nhw fod yn falch ohono. Gobeithio y gallwch chi ymuno gyda ni yn y premiere yn ystod Diwrnod Darganfod RSPB Conwy."

*Neil Dunsire, Tape Community Music and Film*



# Diwrnod Darganfod RSPB Conwy

## Dydd Sadwrn, 31 Awst

10yb – 4yh, Cyfraniad o £1

Ymunwch gyda ni yn ein diwrnod darganfod llawn hwyl i'r teulu i gyd! Byddwn yn archwilio natur, cael hwyl yn y gofod chwarae newydd, a gwneud swigod anferthol gyda Dr Zig!

*Teithiau cerdded bywyd gwyllt, cynnyrch lleol a phlanhigion, gwneud anghenfilod bach, Sioe Torri-Record Adar...a llawer mwy*

## Edrychwch ar ein gwefan am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau.

Hoffai RSPB Cymru ddiolch i'r rheini sydd wedi cyfrannu tuag at gefnogi gwarchodfa natur ac adnoddau ymwelwyr RSPB Conwy, gan gynnwys Ystad y Goron, Ymddiriedolaeth Cemlyn Jones, Amgylchedd Cymru,Tesco plc, Cyngor Tref Conwy a Grŵp Cefnogi RSPB Conwy.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, yr Alban rhif SC037654

## Arhoswch gyda ni

www.rspb.org.uk/conwy
conwy@rspb.org.uk
01492 584091
Dewch o hyd i ni ar f
Dilynwch ni ar
@rspbconwy #conwyconnections